

Cyfleoedd i Ariannu Ymchwil 2019 – Newydd i Ymchwil (FIR) Gwybodaeth Bellach

1. Pwy ydyn ni

Ffurfiwyd RCBC (Cydwethrediad Cynyddu Gwaith Ymchwil Cymru) (<http://www.rcbcwales.org.uk/>) (yn 2005). Ei nod ydy hyrwyddo cynnydd yn y gallu i wneud gwaith ymchwil o blith grwpiau nyrsio, bydwreigiaeth, fferylliaeth a phroffesiynau iechyd perthynol ac i gyfrannu tuag at ddatblygiad rolau clinigol academiaidd.

Mae'r cydwethrediad yn golygu cydweithio rhwng adrannau/ysgolion nyrsio a iechyd perthynol chwe phrifysgol yng Nghymru er mwyn darparu isadeiledd a chymorth ar gyfer cymrodoriaethau ymchwil ar draws y taflwybr ymchwil, yn ymestyn o gyfleoedd Newydd i Ymchwil, graddau Meistri, astudiaethau doethur ac ôl-ddoethurol, hyd at gymrodoriaeth ymchwil uwch-yrfa iechyd. Hyd yma, mae RCBC Cymru wedi cefnogi 89 o gymrodoriaethau.

Caiff y cynllun ei ariannu gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, Llywodraeth Cymru T.

2. Y Broses o wneud Cais

Cwblhewch a chyflwynwch y ffurflen 'Gwirio Cymhwyster' [sydd ar gael ar <http://www.rcbcwales.org.uk/funding-opportunities/>] mor fuan â phosibl er mwyn i chi gael cymaint o amser â phosibl i ddatblygu eich syniadau ymchwil a thrafod gyda'ch dewis sefydliad(au) fydd yn eich lletya. Dyddiad cau derbyn eich ffurflen Gwirio Cymhwyster ydy **15 CHWFROR 2019** ond gallwch gyflwyno'r ffurflen ar unrhyw adeg hyd at y dyddiad hwnnw. Byddwn yn cadarnhau eich cymhwyster i wneud cais i'r cynllun hwn o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl ei derbyn. Ni fydd y rhan hon o'r broses gwneud cais yn adolygu ansawdd eich darpar brosiect ond fe fyddwn angen teitl, ynghyd ag amlinelliad byr o'ch prosiect.

Er mwyn trafod a mireinio eu syniadau, gwahoddir ymgeiswyr cymwys i gymryd rhan mewn gweminar gydag arbenigwyr ym maes cynllunio ymchwil, dulliau ansoddol a meintiol, ymglymiad cleifion, moeseg, a pholisi iechyd a gwella gwasanaethau. Fe fyddan nhw hefyd yn ystyried cynnyddu effaith a rheoli eu prosiect. Cynhelir y weminar ar **5 MAWRTH 2019**.

Dyddiad cau derbyn y cais ydy **15 MAWRTH 2019**. **Rhowch ddigon o amser i chi'ch hun gael y datganiad gan eich darpar (eich dewis cyntaf o) oruchwylydd, cadarnhad o gymorth gan y sefydliad addysg uwch (SAU) a gan eich rheolwr llinell / cyflogwr.** Mae hyd at 8 Cymrodoriaeth Ymchwil ar gael ac mae 6 Sefydliad Addysg uwch yn cydweithredu yn hyn o beth, felly, rydyn ni'n eich cynghori'n gryf i gynnwys unrhyw sefydliad arall o'ch dewis yn eich cais.

Ar ôl tynnu rhestr fer o'r ceisiadau cyflawn, gwneir y dewis drwy gyfweiliadau. Cynhelir y cyfweiliadau ar **26 MAWRTH 2019**.

Wrth dynnu rhestr fer o'r ceisiadau cyflawn ar gyfer eu cyfweld, bydd yr adolygwyr yn edrych ar berthnasedd y prosiect i nodau RCBC Cymru, i weld a oes rhywbeth newydd yn cael ei gynnig sydd â'r potensial o gael effaith positif ar iechyd a lles pobl yng Nghymru ac yn arwain at astudiaeth ehangach, a lle ystyriwyd ymglymu'r cyhoedd yn y prosiect.

Bydd yr adolygwyr hefyd yn ystyried y potensial gwyddonol, unrhyw faterion moesegol sy'n codi a dichonoldeb yr amserlen. Mae'r pwynt olaf yn un pwysig a chynghorir ymgeiswyr i fod yn realistig am yr hyn y gellir ei gyflawni. Bydd yr adolygwyr yn cadw mewn cof mai ymchwilyr newydd fydd yn ymgeisio ac mai nod y gymrodoriaeth ydy codi hyder a gallu ym maes ymchwil.

Bydd y Cymrodoriaethau'n cychwyn **1 EBRILL 2019**.

3. Cymhwyster

Rhaid cwrdd â'r meini prawf cymhwyster personol sydd yn yr hysbyseb. Mae croeso i ymgeiswyr sydd wedi gwneud cais blaenorol i ail-gyflwyno cais.

4. Cymorth ariannol

Bydd pob un dyfarniad Newydd i Ymchwil yn swm gosodedig o £10,744. O hwn, bydd £6,489 yn daladwy i'r sefydliad sy'n eich cyflogi am ryddhau'r cymrawd am y dyddiau ymchwil, aiff £3,605 tuag at gost y goruchwyllo a'r hyfforddi yn y SAU fydd yn eich lletya ac aiff £650 at gostau ymchwil, gan gynnwys mynychu Cymuned yr Ysgolorion (CoS) [ac yn ddibynnol ar dderbyn talebau].

	Dyfarniad	I gynnwys:
Blwyddyn 1	10,744	<ul style="list-style-type: none">• £6,489 taladwy i'r sefydliad sy'n cyflogi am ryddhau'r cymrawd am y dyddiau ymchwil• £3,605 taladwy i'r sefydliad fydd yn eich lletya am y goruchwyllo a'r hyfforddi• £650 at gostau ymchwil a mynychu digwyddiadau Cymuned yr Ysgolorion
Cyfanswm	£10,744	

*** Cynghorir chi i drafod gyda'ch cyflogwr am unrhyw wahaniaeth rhwng eich cyflog a'r swm ddyfernir gan RCBC Cymru i'r cyflogwr.**

5. Cymuned yr Ysgolorion

Y mecanwaith allweddol mae RCBC Cymru wedi ei fabwysiadu i hyrwyddo amgylchedd colegol i feithrin ymchwilyr ydy drwy Gymuned yr Ysgolorion (CoS). Mae hyn yn rhoi gwerth ychwanegol i'r cymrodoriaethau drwy ddarparu mentora a dosbarthiadau meistr mewn dulliau ymchwil ac arweinyddiaeth ymchwil, gan gynnwys gweithio'n agos â pholisi a dylanwadu arno. Bydd pob aelod o gynllun RCBC Cymru'n ymuno â Chymuned yr Ysgolorion dros gyfnod eu Cymrodoriaeth ac **mae mynychu CoS yn ofyniad gorfodol y dyfarniad**. Bydd CoS yn cyfarfod chwe gwaith y flwyddyn gan gynnwys dau ddiwrnod preswyl (h.y. 7 diwrnod llawn y flwyddyn). Darperir treuliau teithio i fynychu'r sesiynau hyn (gweler uchod), ac RCBC Cymru yn talu chostau llety dros nos dros y noson breswyl. Ceir rhagor o wybodaeth ar <http://www.rcbcwales.org.uk/community-of-scholars/the-training-sessions/>. Unwaith y bydd Cymrodoriaethau wedi eu cwblhau, mae 'CoS Alumni' yn trefnu bod cyn-gymrodorion yn cadw mewn cysylltiad â'i gilydd.

6. Dull astudio

Mae'r Cymrodoriaethau 'FiR/Newydd i Ymchwil' ar gyfer astudio'n rhan amser am 12 mis yn ôl un dydd yr wythnos. **Cynghorir ymgeiswyr sy'n gweithio'n rhan amser ar hyn o bryd na all RCBC Cymru dalu Cymrodorion FiR yn uniongyrchol a dylen nhw fod yn ystyried opsiynau tâl gyda'u cyflogwyr am unrhyw gynnydd yn eu horiau allai ddigwydd o ganlyniad i dderbyn Cymrodoriaeth.** Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol ei bod hi'n angenrheidiol i'w dewis cyntaf o brifysgol letya ac i'w cyflogwyr gwblhau'r rhannau perthnasol o'r ffurflen gais. Neilltuir o leiaf un goruchwyllydd/mentor i bob Cymrawd, a bydd y prif oruchwyllydd wedi ei leoli yn un o'r Adrannau/Ysgolorion o fewn partneriaeth RCBC. Efallai bydd goruchwilyr

o feysydd academiaidd a/neu feysydd clinigol/proffesiynol eraill yn cyfrannu i'r prosiect gyda chaniatâd y prif oruchwylydd.

7. Ymrwymadau

Yn ogystal â chwblhau'r darn o ymchwil a ariannwyd a mynychu a gwerthuso pob digwyddiad CoS, mae disgwyl i'r Cymrodorion gyflwyno adroddiadau chwarterol ac adroddiad terfynol i RCBC Cymru y byddwn ni'n trefnu iddyn nhw fod ar gael i'n cyllidwyr. Dylai ymroddiad i ledaenu'r canfyddiadau a gwneud y mwyaf posibl o effaith yr ymchwil fod yn elfen allweddol o bob cymrodoriaeth. Disgwylir i bob un o'r cymrodorion gyflwyno eu hymchwil ar ddiwedd y cynllun mewn digwyddiad Cymuned yr Ysgolorion.

8. Gwneud Cais

Mae'r ffurflenni cais perthnasol a chyfarwyddyd pellach (gan gynnwys manylion ariannu) ar gael yma <http://www.rcbcwales.org.uk/funding-opportunities/>

Am wybodaeth am y cyfleoedd penodol, cysylltwch â'r sefydliadau perthnasol yn uniongyrchol (rhestrir y manylion isod). Am ymholiadau cyffredinol cysylltwch â Marina McDonald, RCBC Cymru, Prifysgol De Cymru. E-bost: marina.mcdonald@southwales.ac.uk Ffôn: 01443 483070

Sefydliadau sy'n rhan o'r Cydweithrediad a Manylion Cyswllt

Prifysgol De Cymru
Cyfadran y Gwyddorau Bywyd ac Addysg
Arweinwyr Gweithredol: Yr Athro Joyce Kenkre
E-bost: joyce.kenkre@southwales.ac.uk
neu Dr Gina Dolan
E-bost: gina.dolan@southwales.ac.uk

Prifysgol Bangor
Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd
Arweinydd Gweithredol: Dr Sion Williams
E-bost: sion.williams@bangor.ac.uk

Prifysgol Metropolitan Caerdydd
Ysgol y Gwyddorau Iechyd
Arweinydd Gweithredol: Dr Robert Mayr
E-bost: rmayr@cardiffmet.ac.uk

Prifysgol Caerdydd
Ysgol y Gwyddorau Gofal Iechyd
Arweinydd Gweithredol: Yr Athro Danny Kelly
E-bost: KellyDM@cardiff.ac.uk

Prifysgol Glyndŵr
Adran Gwyddorau Cymdeithasol ac Addysg
Arweinydd Gweithredol: Dr Joanne Pike
E-bost: j.pike@glyndwr.ac.uk

Prifysgol Abertawe
Ysgol y Gwyddorau Iechyd
Arweinydd Gweithredol: Yr Athro Jaynie Rance
E-bost: j.y.rance@swansea.ac.uk